YSGOL LLAN-Y-PWLL

Polisi Ymddygiad

Dyddiad y cafwyd sêl bendith y Corff Llywodraethu:	16/6/2022
Dyddiad Adolygu	16/5/2025
Llofnod (Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu)	
Llofnod (y Pennaeth)	

Ysgol Llan-y-pwll

Polisi Ymddygiad

1. Datganiad Cenhadaeth

Bydd Ysgol Llan-y-pwll yn cefnogi sgiliau pob plentyn, eu meithrin a'u datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn tyfu'n unigolion medrus a hyderus sy'n ymfalchïo yn eu cyflawniadau, eu hiaith a'u treftadaeth.

2. I bwy mae'r Polisi'n berthnasol

2.1. Caiff y cynllun ei adolygu a'i fonitro mewn ymgynghoriad â chymuned yr ysgol gyfan, gan gynnwys staff, cyngor yr ysgol a'r llywodraethwyr. Aelodau cymuned yr ysgol yw:

a) Y Disgyblion

b) Athrawon (rhai parhaol ac athrawon llanw ac athrawon arbenigol ar gyfer cerddoriaeth, dawns a drama, er enghraifft).

c) Cymorthyddion Addysgu

d) Staff y Swyddfa

e) Goruchwylwyr Maes Chwarae

f) Staff y Ffreutur

g) Gofalwyr / Glanhawyr

h) Rhieni/Gofalwyr

i) Llywodraethwyr yr Ysgol

3. Nodau ac Amcanion

3.1. Nod Polisi Ymddygiad ein hysgol yw meithrin gallu ein disgyblion i dderbyn a chydnabod cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd eu hunain a'r canlyniadau. Mae arferion disgyblu da'n creu'r amodau ar gyfer dysgu effeithiol ac yn helpu i ddatblygu agweddau a gwerthoedd cyfrifol y bydd plant yn meddu arnynt gydol eu hoes. Ni all dysgu effeithiol ond digwydd mewn awyrgylch lle caiff safonau ymddygiad da eu pennu'n hanfodion.

3.2. Mae ymddygiad da yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei swyddogaeth, sef datblygu potensial yr holl ddisgyblion i'r eithaf. Mae ymddygiad annerbyniol yn atal hynny, boed hynny pan mae unigolyn yn rhwystro ei (d)datblygiad ei hun drwy gamymddwyn neu pan mae camymddygiad yn amharu ar ddatblygiad aelodau eraill o gymuned yr ysgol. Ar sail hynny, felly, mae ymddygiad da:

a) yn cydymffurfio â disgwyliadau a gofynion rhesymol yr ysgol.

b) yn seiliedig ar barch gan bawb at anghenion a dyheadau pawb yn yr ysgol, a gofalu am ei hamgylchedd.

3.3. Nod y polisi hwn yw sicrhau:

a) yr anogir hunan-barch a pharch at eraill

b) y canmolir ymddygiad da yn fwy nag y canolbwyntir ar ymddygiad gwael

c) y rhoddir gwerth mawr ar hawl pawb i ddysgu heb amhariad.

3.4. Nod y polisi yn y pen draw yw sicrhau y gall yr holl ddisgyblion ddysgu mewn amgylchedd diogel a hapus heb unrhyw amhariad. Mae'r polisi hefyd â'r nod o sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw achosion unigol o amharu neu gamymddwyn yn gyson ac mewn ffordd adeiladol a theg. Lluniwyd gweithdrefnau pendant ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n amharu fel bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r ysgol a'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl ganddynt hwythau.

3.5. Bydd y polisi hwn yn ein cynorthwyo i:

a) ddarparu amgylchedd dysgu diogel a hapus heb unrhyw amhariadau

b) sefydlu dull o fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n amharu

c) sicrhau fod yr holl ddisgyblion a staff yn gwybod am y polisi hwn ac yn cadw ato'n feunyddiol.

4. **Disgwyliadau'r budd-ddeiliaid a pherthnasedd y polisi iddynt**

Disgyblion

4.1. Disgwyliwn i'n holl ddisgyblion fwynhau eu haddysg yn Ysgol Llan-y-pwll, a'u bod yn medru dysgu mewn amgylchedd diogel lle bodlonir eu hanghenion. Ar yr un pryd dymunwn annog plant i sylweddoli fod plant eraill yn haeddu'r un driniaeth â hwythau ac mai felly y mae'n rhaid i bethau fod.

Staff

4.2. Bydd disgwyl i bob aelod o staff:

d) Hyrwyddo awyrgylch adeiladol a diogel lle gall yr holl ddisgyblion ddysgu drwy eu harferion addysgu a'u gweithredoedd eu hunain

e) Dilyn y gweithdrefnau a bennir yn y polisi hwn wrth iddynt ymdrin ag ymddygiad sy'n amharu.

Rhieni/Gofalwyr

4.3. Disgwylir fod safonau ymddygiad wedi'u hen sefydlu gan blant cyn iddynt ddod i'r ysgol. Bydd safonau ymddygiad derbyniol yn amrywio o un aelwyd i'r llall a rhwng gwahanol deuluoedd, ond cyfyd gwrthdaro pan mae disgwyliadau'r ysgol yn wahanol i'r rhai yn y cartref. Mewn cymuned fach glòs fel aelwyd, mae modd bodloni anghenion unigol heb ormod o drafferth fel arfer, ond mae'r ysgol yn gymuned fawr lle mae'n rhaid cynnwys buddiannau pob unigolyn.

4.4. Mae'r modd y mae disgybl yn derbyn unrhyw drefn o reolau ymddygiad yn dibynnu ar agweddau yn y cartref a'r gymdeithas leol; nid oes fawr ddiben o geisio hyfforddi plant i beidio gollwng sbwriel, er enghraifft, os yw'r teulu'n aml

yn taflu sigaréts neu bapur fferins o'r car. Mae'n gwbl hanfodol fod rhieni'n derbyn disgwyliadau'r ysgol ac yn mynd ati i gydweithredu â'r staff er mwyn gosod safon dderbyniol o ddisgyblaeth.

4.5. Ceisir cydweithrediad rhieni/gofalwyr wrth gynnal safonau uchel mewn presenoldeb disgyblion, prydlondeb, ymddangosiad personol, gwisg ysgol, gofalu am ddeunyddiau dysgu, yn enwedig y rhai hynny sy'n eiddo i'r ysgol, a pharchu hawl disgyblion eraill i ddysgu.

4.6. Mae gan bawb yn Ysgol Llan-y-pwll bob hawl i ddysgu mewn amgylchedd diogel a thawel. Bydd staff yn gwneud eu gorau i ymdrin ag unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn ag ymddygiad sy'n amharu, a bydd gofyn ichi gydweithredu â'r ysgol wrth gefnogi eich plentyn a hyrwyddo'r neges nad yw'n dderbyniol ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu ar eraill.

4.7. Os yw'ch plentyn chi'n ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu ar y dosbarth, gallwch ddisgwyl:

a) Y bydd yr athro dosbarth yn cael gair â'ch plentyn.

b) Y caiff eich plentyn ei thrin/drin yn deg.

c) Y bydd disgwyl i'ch plentyn newid ei (h)ymddygiad, a bod yn staff yn rhoi cefnogaeth ac anogaeth iddo/iddi wneud hynny.

d) Yr anogir eich plentyn i fyfyrio ynghylch ei (h)ymddygiad.

e) Os penderfyna'r Pennaeth fod hynny'n angenrheidiol, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi ac yn gofyn ichi ddod i gyfarfod i drafod ymddygiad eich plentyn. Disgwylir y byddwch yn cydweithredu'n llwyr fel bod modd i'r ysgol a'r aelwyd weithio â'i gilydd wrth atal unrhyw broblemau pellach ag ymddygiad.

f) Os bydd angen fe fydd yr ysgol yn eich cyfeirio at asiantaethau allanol a fedr helpu i'ch cefnogi chi a'ch plentyn wrth fynd i'r afael â'i (h)ymddygiad.

g) Pe byddai'ch plentyn yn dal i ymddwyn mewn ffordd annerbyniol, yna fe gaiff ei (g)wahardd o'r dosbarth dan oruchwyliaeth; gwneir hyn fel y gall y disgyblion eraill yn y dosbarth ddal i ddysgu. Mewn achosion fel hyn mae gan y Pennaeth hawl i ofyn i chi fod yn bresennol i oruchwylio'ch plentyn yn yr ysgol, os yw hynny'n briodol.

h) Os bydd ymddygiad eich plentyn yn creu perygl iddynt eu hunain neu unrhyw un arall yn yr ysgol, dim ond aelodau o staff wedi'u hyfforddi a fydd yn atal y plentyn yn gorfforol er mwyn osgoi unrhyw beryglon pellach.

i) Ni waherddir disgyblion o Ysgol Llan-y-pwll ond pan fetho popeth arall, ond os nad yw'r ysgol wedi llwyddo i ddatrys y sefyllfa a bod hawl ein disgyblion i ddysgu'n dal o dan fygythiad, neu fod iechyd a lles unrhyw aelod o gymuned yr ysgol yn dal o dan fygythiad, yna ni fydd gennym unrhyw ddewis ond gwahardd y disgybl dan sylw yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol.

Llywodraethwyr

4.8. Gall Llywodraethwyr yr Ysgol ddisgwyl cael gwybod am unrhyw achosion difrifol o ymddygiad sy'n amharu ar eraill yn adroddiad y Pennaeth i'r Llywodraethwyr.

4.9. Disgwylir i Lywodraethwyr yr Ysgol:

a) ddarllen y polisi ymddygiad, ei ddeall a chytuno ag ef, ynghyd â'r arferion sydd ar waith yn yr ysgol, a

b) chefnogi polisi'r ysgol yn gyhoeddus.

5. **Ymddygiad da yn Ysgol Llan-y-pwll**

5.1. Mae'r holl aelodau o staff yn Ysgol Llan-y-pwll yn gweithredu ar sail rhoi atgyfnerthiad cadarnhaol mewn ymateb i ymddygiad sy'n tarfu ar eraill. Dyma'r camau a gaiff eu cymryd:

a) Anwybyddu ymddygiad amhriodol fel ceisio sylw, os nad yw hynny'n niweidiol i'r plentyn nag eraill.

b) Bydd yr aelod o staff yn siarad â'r disgybl ac yn egluro pam fod yr ymddygiad yn annerbyniol (ond nid o flaen gweddill y dosbarth).

c) Os yw'r ymddygiad yn parhau bydd yr athro'n rhoi cosb fel amser tawelu/saib neu aros i mewn amser cinio/colli breiniau. Bydd yr athro dosbarth yn trafod y sefyllfa â rhiant/gofalwr.

d) Bydd yn rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth am unrhyw ymddygiad sy'n tarfu ar eraill wedi hynny.

e) Bydd y Pennaeth yn cysylltu â'r rhieni i drefnu cyfarfod i drafod y sefyllfa. Ar yr adeg hon gellid defnyddio strategaethau fel llyfr cartref/ysgol neu siart o dargedau personol.

f) Os yw'r ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn digwydd eto bydd y Pennaeth yn cysylltu ag asiantaethau allanol i drafod ymyriadau, fel y bo'n briodol.

g) Gallai unrhyw ymddygiad sy'n tarfu ar eraill gan amharu ar iechyd a lles disgyblion, staff neu ymwelwyr yn yr ysgol arwain at waharddiad yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol.

5.2. Gwobrwyir y disgyblion fel a ganlyn:

a) Pwyntiau Dojo

b) Gwasanaeth Aur

c) Sticeri

d) Ymweld â'r Pennaeth

e) Tystysgrifau / *Happy Grams*

f) Eu canmol i rieni/gwarcheidwaid.

5.3. Mae'r disgyblion yn dysgu ymddygiad cadarnhaol drwy:

a) Amser Cylch

b) ‘Wal Waw’

c) Canmoliaeth Uniongyrchol a Chyfochrog

6. **Ymweliadau a Theithiau’r Ysgol**

6.1. Disgwylir i’r plant gynrychioli’r ysgol yn y ffordd orau bosib. Mae aelodau o’r uwch dîm rheoli’n cadw’r hawl i atal unigolion rhag cyfranogi o deithiau ac ymweliadau os bernir y gallai eu hymddygiad beri niwed iddynt eu hunain neu eraill.

7.2 Gwneir pob ymdrech i gynnwys pawb yn Ysgol Llan-y-pwll. Os ydym yn pryderu am blentyn wrth gynnal ymweliad ysgol, fe wnawn ein gorau i ddod o hyd i ffordd o ddatrys y mater, boed hynny drwy gael rhieni i ddod gyda ni neu aelodau ychwanegol o staff.

8. **Camau Ymddygiad Hysbys ac Enghreifftiau o’r Ymatebion a Argymhellir:**

Mae’r model isod yn ystyried y gwahanol gamau wrth i argyfwng ddatblygu dros amser. Gall yr un prosesau fod yn berthnasol mewn un digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau yn ystod un diwrnod.

Wrth adolygu’r camau hyn gallai’r holl fudd-ddeiliaid ddod i adnabod sbardunau cychwynnol a chyfleoedd a gollwyd i reoli’r adferiad. Y bwriad yw helpu pawb i asesu beth yw safle’r unigolyn yn y broses a dewis yr ymateb gorau er mwyn helpu i dawelu’r sefyllfa.

Camau:

1 Gorbryder/Sbardun – angen cymorth a chysur.

2 Mynd yn Amddiffynnol/Dwysáu – Angen tynnu sylw, cysuro, pennu terfynau, ffiniau a dewisiadau pendant.

3 Argyfwng – efallai bod angen ymyrryd drwy eu hatal yn gorfforol.

4 Adfer – angen cydlynu ffordd o ryddhau teimladau, rhoi cefnogaeth a chysur.

5 – Iselder – angen arsylwi, cefnogi a monitro. Adfer ac Atgyweirio.

6 Unioni – Myfyrio, atgyweirio ac ailgysylltu.

Cam 1	
Enghreifftiau o Ymddygiad Lefel Isel	Enghreifftiau o Ymatebion Lefel Isel
Yr unigolyn yn dangos arwyddion o orbryder. Dwylo dros eu clustiau. Cuddio'u hwynebau yn eu dwylo neu wedi plygu drosodd uwchben/o dan y ddesg. Tynnu coler i fyny neu dynnu het i lawr. Siglo'n ôl ac ymlaen neu'n tapio. Tynnu'n ôl o'r grŵp. Gwrthod siarad neu fod yn swta. Gwrthod cydweithredu. Ystum corff amddiffynnol.	Darllen yr ymddygiad ac iaith y corff. Ymyrryd yn gynnar i gael gwared ar yr hyn sy'n peri rhwystredigaeth. Cynnig cysur – gan gynnwys anogaeth gorfforol. Eglurwch beth sy'n digwydd a'r hyn a fydd yn digwydd nesaf. Cyfathrebu – siarad a gwrando. Defnyddio hiwmor fel y bo'n briodol. Cyfleu tawelwch drwy iaith y corff. Siarad yn isel, yn araf ac yn dawel. Asesu'r sefyllfa. Tynnu sylw drwy gyflwyno gweithgaredd neu bwnc arall.
Cam 2	
Enghreifftiau o Ymddygiad Lefel Cymedrol	Enghreifftiau o Ymatebion Lefel Cymedrol
Yr unigolyn yn dechrau arddangos mwy o densiwn. Gwneud sŵn a symud o gwmpas. Yn gecrus ac yn gas at eraill. Siarad yn uwch – yn fwy croch – yn gyflymach. Ystum corff bygythiol. Newid mewn cyswllt llygaid.	Dal i ddefnyddio'r ymatebion Lefel 1 i dawelu pethau. Dweud yn bendant pa ymddygiad a ddymunir. Tynnu sylw er mwyn canolbwyntio ar rywbeth cadarnhaol. Gosod terfynau pendant y gellir eu gorfodi.

Cerdded yn ôl ac ymlaen. Torri mân reolau. Dinistrio mân bethau. Codi pethau y gellid eu defnyddio fel arfau. Herio – “Wna i ddim… fedrwch chi ddim gwneud imi”	Cynnig dewisiadau a ffyrdd eraill o wneud pethau. Cynnig dewisiadau clir. Cynnig ffordd allan heb golli urddas. Asesu’r sefyllfa, ystyried gwneud yr amgylchedd yn fwy diogel a cheisio cymorth. Mynd â’r gynulleidfa ymaith. Tywys i le diogel gerfydd eu penelinoedd (staff wedi’u hyfforddi yn unig).
Cam 3	
Enghreifftiau o Ymddygiad Lefel Uchel	Enghreifftiau o Ymatebion Lefel Uchel
Gweiddi a sgrechian. Curo pen yn erbyn pethau neu bobl eraill. Rhoi pelten neu ddwrn i aelod o staff. Difrodi eiddo. Symud yn nes at berygl. Potsian â phethau trydanol. Dringo coed neu doeau neu ddringo drwy ffenestri. Curo gwydr neu fygwth ei dorri. Symud yn nes at arfau. Codi pethau y gellid eu defnyddio fel arfau. Gafael ym mhobl eraill neu’u bygwth. Brifo eraill (penio, pinsio, brathu, cicio, peltio, dyrnu).	Dal i ddefnyddio’r ymatebion Lefel 1 a 2 i dawelu pethau. Gwneud yr amgylchedd yn fwy diogel. Symud dodrefn a chael gwared ar arfau posib. Tywys mewn ffordd bendant – eu dal neu’u hatal yn gorfforol os yw hynny’n gwbl angenrheidiol. Sicrhau bod yr wyneb, llais ac ystum y corff yn gefnogol yn hytrach nag ymosodol.

Cam 4

Enghreifftiau o Gefnogaeth wrth Adfer
Cefnogi a monitro Rhoi lle ac amser. Cadw ar wahân o'r hyn sy'n peri rhwystredigaeth. Cadw llygad am arwyddion bod yr unigolyn yn barod i gyfathrebu. Efallai nad yw hwn yn amser da i gyffwrdd – gallai sbarduno argyfwng eto.

Cam 5

Iselder – Cefnogaeth Wedi'r Digwyddiad
Cefnogi, rhoi cysur a monitro. Ymateb i unrhyw arwyddion bod yr unigolyn yn dymuno cyfathrebu. Dangos pryder a gofal ond peidio â cheisio datrys unrhyw faterion disgyblu am y tro. Gwrando a Dysgu – adfer emosiynau a pherthnasau a niweidiwyd. Rhoi digon o amser.

Cam 6

Unioni
Ni ellir dechrau unioni pethau ond pan mae'r unigolyn yn barod. Myfyrio, atgyweirio ac ailgysylltu. Beth ddigwyddodd? Sut ddaru hynny wneud iti deimlo? Beth fedri di ei wneud y tro nesaf y teimli di felly? Nodwch y dewisiadau da a'r rhai gwael. Nodwch beth sydd angen ei wneud i gywiro pethau. Gwrandewch ar bethau o safbwynt yr unigolyn.

Cysylltwch deimladau ag ymddygiad.

Dysgu ffordd well o wneud pethau'r tro nesaf.

9. **Dyletswydd Gofal**

Mae gan yr holl fudd-ddeiliaid yn Ysgol Llan-y-pwll ddyletswydd i ofalu am ein disgyblion. Mae'r holl fudd-ddeiliaid yn cydweithio i sicrhau y bodlonir anghenion y plant.

Yn Ysgol Llan-y-pwll byddwn yn gwneud ein gorau i edrych i'r dyfodol, rhagweld unrhyw beth a fedrai fynd o'i le a chymryd camau rhesymol i'w atal.